Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Garden City**
**Canolfan Ieuenctid Sealand**
**Sandy Lane**
**Garden City**
**CH5 2JH**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr, 2016**

**gan**

**Dr Prydwen Elfed-Owens**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Garden City, sydd yn cyfarfod yng Nghanolfan Ieuenctid Sealand, yn awdurdod lleol Sir y Fflint. Mae'r lleoliad wedi bod yn gweithredu ers 2013 ac yn darparu sesiynau bore a phrynhawn o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae wedi'i gofrestru i gymryd i hyd at 19 o blant ym mhob sesiwn. Mae 16 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, sydd yn amrywio mewn oedran o ddwy i dair blwydd oed. Mae dau o’r plant tair oed yn cael eu hariannu gan gyllid blynyddoedd cynnar. Mae'r lleoliad yn gweithio mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg a’r Mudiad Meithrin.

Mae bron pob plentyn yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Ar adeg yr arolwg, doedd neb ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r lleoliad yn cyflogi dau aelod o staff, gan gynnwys yr arweinydd. Mae'r ddwy yn meddu ar gymwysterau addas ynghyd a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd yn ei swydd ers mis Medi 2015.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Gorffennaf 2015. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei arolygu gan Estyn.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch croesawgar a thawel ac mae'r phlant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad
- maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rheoli eu hymddygiad yn gadarnhaol
- mae'r staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddysgu i fwyta'n iach ac i fwynhau awyr iach ac ymarfer corff
- mae'r adnoddau o ansawdd da a'r amgylchedd dysgu yn ddeniadol

Fodd bynnag:

- nid yw'r cynllunio yn ffocysu'n ddigonol ar anghenion a galluoedd amrywiol y plant
- nid oes digon o strwythur i gefnogi datblygiad iaith Gymraeg y plant
- mae angen talu sylw brys i ddiogelwch y borfa bychan tu allan

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd:

- mae'r ymarferwyr yn ymroddedig i les y plant
- mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at ddatblygiad a hyfforddiant proffesiynol
- mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau ar gael i gefnogi'r addysgu a dysgu
- mae'r rhieni yn gefnogol i'r lleoliad

Fodd bynnag:

- nid yw'r partneriaethau strategol yn gwbl effeithiol wrth ddarparu cyfeiriad clir i'r lleoliad
- nid yw'r cynllun hunan- arfarnu yn amlinellu targedau a phrosesau clir ar gyfer gwelliant parhaus
- mae'r arferion o fonitro'r lleoliad o ddydd i ddydd yn megis cychwyn ac nid yw arfarnu staff wedi ei sefydlu'n ddigonol

## Argymhellion

A1. Cynllunio profiadau dysgu yn systematig i sicrhau dilyniant a chynnydd yn dysgu’r plant

A2. Gwella’r cynllunio i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg y plant

A3. Defnyddio gwybodaeth asesu yn fwy effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n diwallu anghenion unigolion yn well

A4. Sicrhau bod gweithdrefnau hunan arfarnu yn systematig, yn gadarn ac yn seiliedig ar fonitro tystiolaeth uniongyrchol o addysgu a dysgu

A5. Sefydlu cynlluniau cadarn ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol i'w datblygu

A6. Gweithio'n fwy effeithiol gyda phartneriaid strategol allweddol i wella canlyniadau i blant

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau: Ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar gynnydd, safonau yn natblygiad eu sgiliau, yr iaith Gymraeg na lles y plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolwg i adrodd arnynt heb adnabod unigolion.

**Lles: Ddim yn berthnasol**

Nid oes adroddiad ar gynnydd, safonau yn natblygiad eu sgiliau, yr iaith Gymraeg na lles y plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolwg i adrodd arnynt heb adnabod unigolion.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr ar y cyfan yn darparu amrywiaeth o brofiadau diddorol ar themâu megis dail yr hydref ac anifeiliaid y jyngl. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at hapusrwydd y plant yn y lleoliad ac at eu hawydd i ddysgu.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ymarferwyr yn darllen straeon iddynt yn rheolaidd i helpu i ddatblygu eu sgiliau gwrando a darllen cynnar. Maent yn eu hannog i ymarfer eu sgiliau ysgrifennu cynnar drwy dynnu siapiau a defnyddio sialc y tu allan. Maent yn darparu cyfleoedd addas i gyfrif gwrthrychau, er enghraifft yr anifeiliaid yn yr hambwrdd tywod a nifer yr eliffantod mawr a bach maent yn eu torri allan o gylchgronau.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn annog plant i edrych ar lyfrau a chylchgronau am wahanol fathau o eliffantod. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'r gweithgareddau'n ddigon da i sicrhau dilyniant a chynnydd yn nysgu'r plant ar draws cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn fwy amlwg wrth geisio cynllunio i ddatblygu'r iaith Gymraeg pan nad yw'r ymarferwyr yn ddigon hyderus wrth ganfod sut ymestyn ac atgyfnerthu geirfa a phatrymau iaith y plant.

Mae ymarferwyr yn paratoi cyfleoedd da i blant ddatblygu eu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), er enghraifft wrth nodi siapiau a lliwiau. Maent yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddatblygu eu sgiliau creadigol wrth baentio, gwneud marciau a chanu. Maent yn annog plant yn llwyddiannus i chwarae rôl trwy gynllunio cyfleoedd gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar gyd-destunau cyfarwydd iddynt. Er enghraifft, mae plant yn defnyddio menig popty i dynnu prydau poeth allan o'r popty yn y gornel gartref.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu hunaniaeth ddiwylliannol wrth ddathlu amrywiol wyliau a mwynhau storïau gan awduron adnabyddus Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddysgu am y byd y maent yn byw ynddo drwy gyfarfod ymwelwyr neu drwy ymweliadau addysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr holl ymarferwyr wybodaeth a dealltwriaeth addas o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn perthynu'n gynnes gyda'r plant ac yn dangos gofal gwirioneddol a hoffter tuag atynt. Mae hyn yn adeiladu hunanhyder y plant ac yn meithrin agwedd gadarnhaol at ddysgu. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn bwyllog ac yn sensitif, ac o ganlyniad mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cydbwysedd da rhwng gweithgareddau a arweinir ganddynt hwy a'r rhai a gychwynnir gan y plant gan sicrhau bod yr amgylchedd dan do a'r awyr agored yn ddeniadol ac ysgogol. Mae pob plentyn yn cael profiad dyddiol o'r ardal tu allan ac yn cael eu hannog i fwynhau'r awyr agored ac i wisgo'n briodol ar gyfer y tywydd oer. Mae'r profiadau hyn yn cefnogi ac ymestyn eu datblygiad corfforol yn dda ac mae'r gweithgareddau ar y cyfan yn ddiddorol ac ysgogol. Er enghraifft, pan mae plant yn chwilio am anifeiliaid y jyngl yn y tywod ac yn cymryd eu tro wrth ddewis enw cân allan o het y Dewin. Fodd bynnag, mae rhai o'r gweithgareddau yn ddibwrpas heb ffocws digonol ar ddatblygu sgiliau'r plant.

Mae cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu sgiliau meddwl pan fyddant wrth eu gwaith ac wrth chwarae ac mae'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau penagored addas. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn herio plant unigol yn ddigon da na chwrdd ag anghenion plant sydd weithiau'n gweithio islaw'r lefelau disgwyliedig.

Mae'r ymarferwyr yn asesu ac yn olrhain cynnydd plant yn rheolaidd. Maent yn cofnodi canlyniadau eu harsylwadau yn briodol, sy'n creu proffil defnyddiol o ddatblygiad pob plentyn. Nid yw gweithdrefnau o nodi camau nesaf yn nysgu'r plant bob amser yn ddigon rheolaidd.

Mae'r ymarferwyr, ar gais y rhieni, yn adrodd i rieni a gofalwyr ar ddatblygiad y plant yn anffurfiol yn ddyddiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r lleoliad yn darparu'n dda ar gyfer iechyd a lles plant ac yn gweithredu arfer da o ran glendid ar ôl bod yn y toiled a chyn bwyta. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i fwyta ac yfed byrbrydau iach ac mae ganddynt ddigon o gyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol ac i fwynhau gweithgareddau awyr agored.

Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o gynaliadwyedd trwy ailgylchu bwyd ar ôl amser byrbryd.

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu polisi'r lleoliad i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn gyson ac yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr yn dangos parch a chynhesrwydd tuag at y plant gan arddangos gofal a chymorth sensitif sy'n hybu eu lles a'u hyder.

Mae cyfleoedd priodol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd y plant yn cael eu hannog i ddweud 'diolch' ac yn cymryd tro i fod yn 'Helpwr Heddiw.' Mae'r ymarferwyr yn cyfoethogi ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant yn briodol trwy lyfrau stori a defnydd o amrywiaeth adnoddau dysgu o wahanol wledydd. Mae presenoldeb y plant yn nathliadau Nadolig yn un o'r ysgolion cynradd maent yn ei fwydo yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad ysbrydol y plant.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion addysgol arbennig yn mynychu’r lleoliad ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae gan y lleoliad bolisïau addas yn eu lle sy'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymarferwyr yn meddu strategaethau i nodi anghenion ychwanegol plant yn gynnar a gwneud defnydd priodol o'r gwasanaethau arbenigol sydd ar gael i'w cefnogi. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn egluro sut y byddant yn monitro datblygiad plant er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal asesiadau risg rheolaidd er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel a sicr ar gyfer y plant, fodd bynnag, mae yna agweddau ar ddiogelwch yn ymwneud ar y glaswellt sydd angen eu datrys. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn diwallu y rhan fwyaf o ofynion. Fodd bynnag, mae un man glaswelltog bach yn parhau i achosi pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn creu awyrgylch croesawgar a theuluol, sy'n galluogi pob plentyn i ymgartrefu'n gyflym. Maent oll yn adnabod pob plentyn yn dda; yn dangos parch tuag atynt ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i'r holl brofiadau dysgu. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar gymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r gofod dan do yn briodol a'r ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r lle sydd ar gael. Mae'r meysydd dysgu dynodedig yn ddeniadol ac apelgar. Mae'r ardal carped tawel yn annog plant i wrando ar storïau ac edrych ar lyfrau. Mae’r meysydd gwneud marciau a phaentio yn addas ac yn cefnogi sgiliau ysgrifennu plant yn dda. Mae'r ardal byrbryd wedi'i drefnu'n dda i annog plant i gymdeithasu a mwynhau eu byrbrydau.

Mae gan yr ardal awyr agored amrywiaeth dda o adnoddau i hyrwyddo datblygiad corfforol plant, fel fframiau dringo, dŵr a chafnau tywod. Mae'r ymarferwyr yn annog plant i ddefnyddio'r ardal allanol yn ddyddiol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fwynhad plant wrth iddynt fynychu'r cylch chwarae. Nid yw'r lleoliad yn cynllunio digon o gyfleoedd i blant dyfu a gofalu am eu planhigion eu hunain.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinydd y lleoliad a'i thîm yn ymroddedig i gefnogi a gofalu am bob plentyn i sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel, yn cyfrif ac yn hapus. Mae'r arweinydd newydd yn annog ac yn rhoi gwerth ar waith tîm, gan sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn briodol i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'n sicrhau bod pob ymarferydd yn deall amcanion y lleoliad ac yn cefnogi'r ffocws clir sydd ar ddarparu ethos gofalgar lle mae plant yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.

Mae'r person cyfrifol yn sicrhau bod y polisïau statudol yn eu lle ac ynghyd â'r arweinydd yn rheoli cyllid y lleoliad yn effeithiol. Fodd bynnag, mae arfer monitro dyddiol y lleoliad yn newydd ac nid yw arfarnu staff wedi ei ddatblygu'n ddigonol. Mae'r pwyllgor rheoli, yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd y lleoliad gan y swyddog cymorth.

Mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn dechrau canolbwyntio ar ddatblygu agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn tanlinellu'r pwysigrwydd o fwyta ac yfed yn iach. Maent wedi cyflwyno nifer o fentrau defnyddiol yn ddiweddar. Er enghraifft, mae'r arweinydd wedi sefydlu disgwyliad clir ar ymddygiad da, sy'n cael ei weithredu mewn modd sensitif. Mae hi hefyd wedi cyflwyno gweithgareddau awyr agored dyddiol i wella sgiliau corfforol plant a'u lles. Fodd bynnag, mae llawer o'r mentrau hyn yn gymharol newydd ac nid ydynt wedi cael amser eto i effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth nag ar safonau cyflawni'r plant.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae prosesau hunan arfarnu ffurfiol y lleoliad yn gymharol newydd. Yn yr amser byr ers iddynt apwyntio staffio newydd sbon, mae'r lleoliad wedi derbyn llawer o syniadau a dulliau newydd o weithio. Fodd bynnag, maent yn llai llwyddiannus wrth bennu eu hagenda eu hunain ar gyfer gwella. Mae'r holl weithdrefnau hunan arfarnu ffurfiol a chynllunio ar gyfer gwelliant yn newydd. Felly, nid yw'r ymarferwyr wedi cael digon o amser i ddatblygu eu dealltwriaeth o'u pwysigrwydd i wneud gwelliannau parhaol, o ansawdd. Ymrwymodd y lleoliad â'r Mudiad Meithrin ym mis Ionawr, 2015 ac felly nid yw eto wedi cwblhau'r gylch cyntaf o hunan arfarnu.

Nid ydyw'r adroddiad hunan arfarnu presennol yn ddigon trwyadl a manwl i'w galluogi i fonitro safonau cyflawniad y plant, ansawdd y ddarpariaeth a'r addysgu. Er bod rhywfaint o gysylltiad rhwng deilliannau'r hunan arfarnu a'r targedau yn y cynllun gwella, nid yw'r blaenoriaethau yn canolbwyntio'n ddigon clir ar feysydd i'w gwella, yn enwedig o ran gwella safonau. Nid yw'r targedau yn cael eu nodi'n glir ac nid yw'r cyfleoedd i adolygu a gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd yn ddigonol.

Mae'r lleoliad yn weithredol wrth geisio barn rhieni am ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys yr holl randdeiliaid wrth nodi'r hyn y mae'n ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen wneud i wella.

Mae'r ymarferwyr yn gweithio'n galed ac yn gwneud ymdrech addas i ymateb yn gadarnhaol i gymorth a chyngor yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Maent yn awyddus i ddysgu a datblygu'n broffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Yn gyffredinol mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid i gyfoethogi dysgu a lles plant, megis, Dechrau'n Deg a rhieni. Mae gallu'r lleoliad i weithio'n bwrpasol gyda phartneriaid allweddol megis Y Mudiad Meithrin a'r awdurdod lleol yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae'n dechrau gweithio gyda'r athrawes gyswllt i wella'r cynllunio a' asesu ac i gynnwys y rhieni yn dysgu eu plant. Fodd bynnag, nid yw'r partneriaid strategol allweddol yn gwbl effeithiol wrth ddarparu'r lleoliad gyda chyfeiriad clir.

Mae'r bartneriaeth gyda rhieni a gofalwyr yn datblygu'n dda. Mae rhieni yn gwerthfawrogi polisi drws agored y lleoliad a'r cyfle i siarad â staff yn rheolaidd ac maent yn gwerthfawrogi eu bod ar gael i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae'r prosbectws yn ddogfen gryno, sy'n rhoi gwybodaeth ymarferol am y lleoliad cyn i'w plant gychwyn. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr wyneb yn wyneb yn ddyddiol ac yn creu awyrgylch dymunol, mae ymwelwyr yn gwerthfawrogi. Mae'r lleoliad yn dechrau datblygu ffyrdd clir, manwl o gynllunio ac asesu cynnydd plant gan gynnwys rhieni yn dysgu eu plant.

Mae'r trefniadau pontio o'r cartref i'r lleoliad yn datblygu'n dda. Mae trefniadau i bartneru gydag ysgolion maent yn eu bwydo yn datblygu'n dderbyniol er bod anghysondebau ac mewn rhai achosion mae hyn wedi'i gyfyngu i drosglwyddo cofnodion yn unig. O ganlyniad, nid yw pob plentyn yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer eu cam nesaf mewn addysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad amrywiaeth dda a pherthnasol o adnoddau dan do ac awyr agored. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn defnyddio'r rhain yn briodol i hyrwyddo addysgu a dysgu yn unol â chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae digonedd o adnoddau deniadol ar gael i'r plant. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn annog annibyniaeth a diddordeb mewn dysgu yn y plant yn dda.

Mae'r newidiadau mewn rolau staffio ac arweinyddiaeth wedi arwain at anghysondebau yn ansawdd y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae staffio, adnoddau a chyllid yn awr yn sefydlog a'r ymarferwyr yn fwy ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae hyfforddiant priodol ar gael i'r ymarferwyr, sy'n sicrhau bod eu sgiliau a'u gwybodaeth yn gyfredol. Mae arbenigedd y staff yn dechrau cael ei ddefnyddio'n dda ac mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel tîm yn effeithlon.

Mae systemau priodol yn eu lle i reoli'r gyllideb ac i gadw gwariant o dan adolygiad. Mae'r ymarferwyr wedi gweithio'n galed mewn cyfnod cymharol fyr i ddarparu profiadau dysgu priodol ac i sicrhau bod plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Fodd bynnag, mae llawer o'r datblygiadau yn newydd a heb ymgorffori'n llawn. O ganlyniad, mae diffygion yn y cynllunio, asesu a'r ddarpariaeth yn gyffredinol. Felly mae'r lleoliad yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Dr Prydwen Elfed-Owens | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol blant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |